

**Cynnig i ad-drefnu ac ailfodelu'r Gwasanaethau
Cymorth Ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors i
wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc**

Dogfen Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

Cyfeiriad e-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Rhif ffôn: 01267 246618

Rhagair

Fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i adolygu nifer a mathau'r lleoedd sydd ar gael yn ei ysgolion, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu rhaglen eang ei chwmpas a luniwyd i wella adeiladau ysgolion ac i hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r polisiau a sefydlwyd gan y Cyngor Sir sy'n cwmpasu'r angen i ddarparu gwasanaethau sy'n cyrraedd safonau clir – o ran cost ac ansawdd – a hynny yn y modd mwyaf darbodus ac effeithiol. Yn ein hymgyrch i wella'n barhaus y gwasanaethau sydd ar gael i bob dysgwr, mae'n ofynnol ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor, ac yn parhau i weithio mewn partneriaeth â phawb sydd â chyfraniad i'w wneud i'r broses ddysgu ac i lesiant plant a'u teuluoedd. Bydd angen i ysgolion y dyfodol fod yn ganolbwynt ar gyfer ystod eang o wasanaethau a drefnwyd yn bwrpasol i fodloni anghenion y gymuned mewn modd cydgysylltiedig.

Yn ffodus iawn mae gan Sir Gaerfyrddin nifer fawr o arweinwyr addysg ac athrawon dawnus, ond mae'r newidiadau parhaus a wneir i'r cwricwlwm yn rhoi pwysau mawr ar eu sgiliau i fodloni galwadau hynod amrywiol pob plentyn. Er mor bwysig yw'r prosesau dysgu a'r sgiliau addysgu, mae'n hanfodol fod gan athrawon wybodaeth drylwyr am bynciau os yw dysgwyr, â'u hamrywiol ddoniau mewn gwahanol feysydd, i ddarganfod eu galluoedd a'u datblygu i'r eithaf.

Mae disgwyl i'r ysgolion hynny a gynlluniwyd fel eu bod yn bodloni'r galwadau presennol ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys drwy ddulliau addysgu sy'n ysbrydoledig ac o safon uchel. Wrth gynllunio darpariaeth newydd bydd yn bwysig sicrhau bod ein hysgolion yn cynnwys yr offer priodol i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd. Yn ymarferol, mae gofyn inni sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu patrymau newidiol y boblogaeth a bod ysgolion yn y manau iawn a bod ganddynt adeiladau a chyfleusterau sy'n addas i ddiwallu anghenion pob dysgwr yn yr unfed ganrif ar hugain.

Bydd yr ymgynghori'n dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnwys y bobl y pennwyd bod ganddynt fuddiant yn y mater. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Rhestr Byrfoddau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
ND	Nifer Derbyn
CS	Cyfrwng Saesneg
Estyn	Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
ALI	Awdurdod Lleol
MCYC	Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru
RhMA	Rhaglen Moderneiddio Addysg
NOR	Nifer y disgyblion ar y gofrestr
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
ACEY	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
YA	Ysgol Arbennig
CSCA	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
LIC	Llywodraeth Cymru
CC	Cyfrwng Cymraeg

Cynnwys

Cyflwyniad.....	6
Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt	6
Y Ddarpariaeth Bresennol / Y Cynnig	8
Y Rhesymeg dros Newid	9
Y Cynnig.....	11
Y Broses Ymgynghori	19
Atodiad A – Aseiad o'r Effaith ar y Gymuned.....	23
Atodiad B – Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg.....	24
Atodiad C – Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	25

Cyflwyniad

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i adolygu nifer a math yr ysgolion y mae'n eu cynnal yn yr ardal ac a yw'n llwyddo i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Fel rhan o'r broses hon mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol o ran holl ysgolion cynradd ac uwchradd y Sir. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ynghylch y trefniadau addysg yn y dyfodol yn Ysgol Rhyd-y-gors.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu'r ddarpariaeth a'r opsiynau presennol i benderfynu ar yr ateb gorau ar gyfer diwallu anghenion y dyfodol.

Yr ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt

Mae dalgylch Ysgol Rhyd-y-gors yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin gyfan ac felly bydd pob ysgol yn cael gwybod am y cynnig.

		Ysgol Rhyd-y-gors
Lleoliad yr Ysgol		Heol Llansteffan Tre Ioan Sir Gaerfyrddin SA31 3NQ
Ystod Oedran		7-16
Categori Ysgol		Ysgol Arbennig
Categori Iaith		Cyfrwng Saesneg/Dwyieithog
Nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2020 (y disgyblion sy'n preswyllo)		37 (4)
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (y disgyblion sy'n preswyllo)	Ionawr 2019	45 (6)
	Ionawr 2018	46 (7)
	Ionawr 2017	46 (11)
	Ionawr 2016	38 (12)
Amcanestyniad ynghylch Nifer y Disgyblion	Ionawr 2021	Ddim yn berthnasol
	Ionawr 2022	Ddim yn berthnasol
	Ionawr 2023	Ddim yn berthnasol
	Ionawr 2024	Ddim yn berthnasol
	Ionawr 2025	Ddim yn berthnasol
Nifer y Lleoedd		46
Cost fesul disgybl (2020/21)		£44,049
Cyllideb Ysgol (2020-21)		£1,982,000
Canlyniad Arolygiad Estyn		Estyn
Categori Cyflwr Adeilad		C (Gwael)

Arolygiadau Estyn

Fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion, mae Estyn yn comisiynu adolygiadau o bob ysgol. Cynhaliwyd yr arolygiad diweddaraf o Ysgol Rhyd-y-gors gan Estyn ym mis Tachwedd 2019 a gall ymgynghoreion gyrchu'r canfyddiadau naill ai ar wefan Estyn sef www.estyn.llyw.cymru neu gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol am gopi (mae'n bosibl y codir tâl am lungopïo.)

Mae Estyn yn defnyddio graddfa pedwar pwynt i ddyfarnu a gwerthuso effeithiolrwydd y darparwr:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Ardderchog	Perfformiad ac arferion cryf a pharhaus
Da	Nodweddion cryf, er bod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwella	Mae'r cryfderau'n gorbwyso'r gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig
Anfodddhaol ac mae angen gwella ar frys	Mae'r gwendidau pwysig yn gorbwyso'r cryfderau.

Dangosir dyfarniadau'r arolygiad ar gyfer Ysgol Rhyd-y-gors yn y tabl canlynol:

Maes Arolygu	Dyfarniad
Safonau	Digonol ac angen gwella
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Digonol ac angen gwella
Profiadau dysgu ac addysgu	Digonol ac angen gwella
Gofal, cymorth ac arweiniad	Digonol ac angen gwella
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Digonol ac angen gwella

Y Ddarpariaeth Bresennol/Y Cefndir

Ysgol arbennig breswyl bwrpasol a gynhelir yn nhref Caerfyrddin yw Ysgol Rhyd-y-gors. Mae'n bwysig nodi mai Ysgol Rhyd-y-gors yw'r unig ysgol arbennig yn y rhanbarth sy'n darparu addysg i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae'r ysgol yn darparu addysg arbennig i ddisgyblion rhwng 7 ac 16 oed. Mae lle ar gyfer hyd at 46 o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol (ACEY) sydd angen lleoliad dydd neu leoliad preswyl hirdymor arbenigol.

Mae 37 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gan bob disgybl Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) yn bennaf ar gyfer anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae nifer o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn yr awdurdod lleol ac mae rhai'n dod o awdurdodau lleol cyfagos. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith. Mae tua 54% o'r disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Mae llai nag 20% o ddisgyblion yn cael gofal gan yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm personol ac addasol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion cael cyfleoedd dysgu pwrpasol i ddatblygu ymgysylltiad. Mae'r ysgol yn parhau i wella ei dull o ddatblygu sgiliau'r disgyblion drwy'r cwricwlwm hwn.

Roedd arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol, ym mis Tachwedd 2019, o'r farn bod yr ysgol yn 'ddigonol ac angen gwella' ym mhob un o'r pum maes arolygu. Mae'r ysgol yn cael ei hadolygu gan Estyn.

Mae strwythur arweinyddiaeth presennol yr ysgol yn cynnwys pennaeth dros dro, a benodwyd ym mis Medi 2018, a thîm o uwch-arweinwyr sy'n cynnwys arweinydd bugeiliol, rheolwr busnes, pennaeth gofal a phennaeth cynorthwyol.

Gwybodaeth am Nifer y Lleoedd

	Ion 16	Ion 17	Ion 18	Ion 19	Ion 20
Cyfanswm nifer y lleoedd	46	46	46	46	46
Nifer y Disgyblion*	38*	46*	46*	45*	37*
Nifer y disgyblion preswyl	12	11	7	6	4
Lleoedd gwag	8	0	0	1	9
% nifer y disgyblion yn ormod	17%	0%	0%	0.2%	20%

*Yn cynnwys y disgyblion preswyl

Fel y gellir gweld o'r tabl uchod, mae'r lleoedd gwag yn Ysgol Rhyd-y-gors wedi bod yn gyfyngedig yn ystod y pum mlynedd diwethaf sy'n dangos bod y galw am ddarpariaeth ACEY yn uchel yn ardal Caerfyrddin.

Y Rhesymeg dros Newid

Yn dilyn adolygiad strategol o Wasanaethau Ymddygiad yr Awdurdod Lleol, nod yr Awdurdod Lleol yw rhoi'r gorau i ganolbwyntio'n unig ar ymddygiad a defnyddio dull mwy cyffredinol sy'n cynnwys llesiant ac ymgysylltiad disgyblion. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu Model Pedwar Cam o wasanaethau ymddygiad sy'n cynnwys darparu cymorth o ran ymddygiad ac ymgysylltu, a hynny ar bedair lefel. Mae'r cymorth yn amrywio o ran ymyrraeth a chymorth mewn ysgolion prif ffrwd i leoliadau seibiant neu breswyl arbenigol.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r Model Pedwar Cam. Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod Lleol ystod o leoliadau lle y cefnogir disgyblion ag ACEY. Mae hyn yn cynnwys Ysgol Rhyd-y-gors, Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin (Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion uwchradd), Canolfan Bro Tywi (Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion cynradd) a Chanolfan y Gors (Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion uwchradd sydd â phroblemau sylweddol o ran gorbryder a/neu lesiant emosiynol a phroblemau iechyd meddwl sydd angen cefnogaeth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Mae gweledigaeth y model pedwar cam yn cynnwys annog pob un o'r lleoliadau hyn i gydweithio fel un Tîm y Gwasanaeth Cymorth ar gyfer Ymddygiad Arbenigol a Llesiant. Un o'r prif ffyrdd o gyflawni hyn yw creu cysondeb o ran y math o ddarpariaeth a gynigir ym mhob un o'r lleoliadau a chreu system sy'n sicrhau bod cysylltiadau ag ysgolion prif ffrwd.

Ar hyn o bryd, unwaith y bydd plentyn yn cael ei roi yn Rhyd-y-gors, mae'r dystiolaeth hanesyddol yn awgrymu bod y person ifanc yn aros yno hyd nes ei fod yn 16 oed heb unrhyw brofiad pellach o fod mewn ysgol brif ffrwd.

Mae'r Model Pedwar Cam newydd yn datblygu gwasanaethau cymorth ymddygiad i ganiatáu mynediad haws at ymyrraeth gynnar fel bod gan ysgolion fynediad uniongyrchol i aelod o dîm y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad a fydd yn cael ei hyfforddi mewn dulliau adferol, arferion sy'n ymwybodol o drawma, ac yn datblygu'n broffesiynol yn barhaus i gefnogi anghenion eu clwstwr o ysgolion. Caiff aelodau o dîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad eu cefnogi gan eu Rheolwr Llinell, y Swyddog Arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion a Seicolegydd Cyswllt Addysg a Phlant sydd â chyfrifoldeb uwch am ymddygiad, a hynny i fynd i'r afael ag unrhyw bobl ifanc y maent yn teimlo bod angen cyngor, cymorth ac arweiniad arnynt, fel y bydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei gymeradwyo i ddiwallu anghenion y dysgwyr ifanc a'r ysgolion y maent yn eu mynychu.

Gan y bydd y Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu rheoli o dan 'Cam 3', bydd cysondeb o ran rhaglenni hyfforddi, datblygu ethos, cynnig o ran y cwricwlwm a datblygu ymarferwyr sy'n seiliedig ar drawma mewn lleoliad sy'n seiliedig ar drawma ac amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol (PIE).

Drwy gael cyswllt rheolaidd â staff y Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad byddwn yn cael mwy o gyfle i weithio'n gynharach gyda'n dysgwyr ar gyfer ymyrryd a bydd hyn yn ein galluogi, drwy gyfarfodydd amlasiantaeth ac o bosibl Timau sy'n Ymwneud â Disgyblion, Rhieni ac Ysgolion (TAPPAS), sef prosiect peilot yn yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, i ddatblygu pecynnau cymorth creadigol ac arloesol cyn gynted â phosibl er mwyn cadw ein dysgwyr mewn ysgolion prif ffrwd os mai dyma'r lleoliad mwyaf priodol.

Mae yna ddysgwyr bob amser sydd ag anghenion cymhleth ac sydd angen pecynnau cymorth cadarn y tu allan i ddarpariaeth brif ffrwd ond mae ein hethos yn cefnogi cynwysoldeb a datblygu cymorth a gwasanaethau sy'n seiliedig ar anghenion. O fewn y model Pedwar Cam, pan argymhellir bod plentyn yn cael lle yng Nghymau 3 neu 4 dylai fod cyfle bob amser i ddychwelyd i'r brif ffrwd, neu hyd yn oed gael mynediad i'r brif ffrwd ar gyfer pynciau sydd yn ennyn eu diddordeb mewn modd cadarnhaol, ac nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar ddysgu rhai eraill, pan all y person ifanc reoli emosiynau a chymryd rhan yn ei addysg mewn modd cadarnhaol a diogel. Gellir gwneud hyn drwy fonitro ac asesu'n barhaus a chyda pherthynas agos, dryloyw sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth â'n hysgolion prif ffrwd.

Er mwyn cysondeb, mynediad i gymorth arbenigol iawn, mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod o opsiynau achredu a'r cynnig o gynlluniau addysg unigol a phwrpasol a gynigir yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion presennol drwy'r dull 3 Haen, mae'n ofynnol cau Ysgol Rhyd-y-gors fel ysgol arbennig a'i sefydlu fel Uned Cyfeirio Disgyblion. Bydd y cynnig hwn yn cychwyn y newid hwn.

Er y cydnabyddir bod Ysgol Rhyd-y-gors wedi bod yn darparu addysg i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ar ffurf ysgol arbennig ers nifer o flynyddoedd, cydnabyddir y bydd gwella model yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu'n fwy priodol ar gyfer diwallu anghenion cymdeithas a'i phobl ifanc, gan ddarparu cyfleoedd cyson ar draws y sir.

Bwriad yr Awdurdod yw sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors fel darpariaeth amgen. Rhaid nodi y dylid ystyried sefydlu UCD (yn lle Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors) ar wahân i'r ymgynghoriad hwn ac y caiff ei wneud drwy weithdrefnau ar wahân yn dilyn y penderfyniad angenrheidiol ynghylch y cynnig a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori hon.

Y Cynnig

1. Yn unol â'r Côt Trefniadaeth Ysgolion (2018) mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig: **Cau Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors ar 1 Ionawr 2022.**

Bydd holl gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors yn parhau i gael eu haddysg ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, yn hytrach na chael darpariaeth mewn ysgol arbennig, bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

Er y dylid ystyried y cynnig yn ei gyfanrwydd, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ymwneud â Phwynt 1 yn unig. Bydd pwyntiau 2 a 3 a nodir isod yn cael eu gweithredu drwy weithdrefnau ar wahân.

2. Os caiff yr uchod (Pwynt 1) ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors ar 1 Ionawr 2022.
3. Yn ogystal, os caiff Pwynt 1 ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Cartref Plant/Canolfan Seibiant ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors/Uned Breswyl ar 1 Ionawr 2022.

Bydd holl gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors sydd ag elfen o addysg breswyl yn rhan o'u Datganiad AAA yn parhau i gael hyn ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors.

Er mwyn i'r cynigion gyd-fynd â'i gilydd ac er mwyn eu datblygu ymhellach, ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Lleol yn y broses o ddatblygu cais am gyllid y Gronfa Gofal Integredig i ddatblygu cartref plant newydd sy'n addas i'r 21^{ain} ganrif. Gobeithio y bydd hyn yn gwella'r model cartref plant a'r ddarpariaeth sydd ar gael ac yn diwallu anghenion plant yn lleol ac yn rhanbarthol. Er bod y cais yn y camau cynnar iawn, mae'r arwyddion cynnar yn gadarnhaol oherwydd yr angen i ddatblygu'r ddarpariaeth.

Beth yw ystyr y cynnig?

Os caiff y cynnig a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori hon ei gymeradwyo, bydd Ysgol Rhyd-y-gors yn cau fel Ysgol Arbennig. Bydd safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darparu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) a fydd yn cael ei sefydlu (drwy weithdrefnau ar wahân) yn amodol ar benderfyniad y cynnig a ddisgrifir yn y ddogfen hon. Yn ogystal, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Cartref Plant/Canolfan Seibiant ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors ar gyfer disgyblion preswyl presennol Ysgol Rhyd-y-gors a bydd darpar ddisgyblion yn parhau i gael yr opsiwn o gael mynediad at addysg breswyl yn rhan o'u cynlluniau addysg.

Ni effeithir ar Ganolfan Bro Tywi (UCD ar gyfer disgyblion cynradd) a'r Tîm Cymunedol Cymorth Ymddygiad, sydd wedi eu cydleoili ar y safle, gan y cynnig a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon.

Beth yw UCD?

Mae UCD yn fath o ysgol a sefydlwyd ac a gynhaliwyd gan awdurdod lleol i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc nad ydynt efallai'n cael addysg o'r fath oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall (adran 19 o Ddeddf Addysg 1996).

Gellir cael rhagor o wybodaeth am reoli Unedau Cyfeirio Disgyblion yn y ddogfen ganlynol:

[Rheoliadau Addysg \(Unedau Cyfeirio Disgyblion\) \(Rheoli Pwyllgorau ac ati\) \(Cymru\) 2014.](#)

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ddarparu adnoddau, trefniadaeth a chynnal a chadw UCD.

Manteision ac anfanteision y cynnig

Manteision

- Gall y Tîm Cymorth Ymddygiad sicrhau y bydd atgyfeiriadau i'n darpariaeth ar sail asesiad cynhwysfawr o anghenion a dyheadau'r disgybl, gyda mewnbwn gan y disgybl a'i rieni neu ei ofalwyr, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a ddewisir yn cydweddu'n dda.
- Bydd y ddarpariaeth yn becyn unigol sy'n aml yn cynnwys mwy nag un darparwr (yr ysgol a'r UCD) gan fod hyd yn oed anghenion disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol tebyg neu ddisgyblion sydd ag ADY yn gallu amrywio'n enfawr.
- Bydd yr asesiad yn cynnwys deall dyheadau disgyblion ôl-16 er mwyn sicrhau bod y cynnig academaidd a/neu alwedigaethol yn cefnogi eu datblygiad. Bydd hyn yn golygu bod yr UCD, yr ysgol a darparwyr ehangach yn cydweithio'n effeithiol.
- Bydd athrawon yn addasu rhaglenni a thasgau yn ôl anghenion unigol ac arddulliau dysgu disgyblion.
- Bydd y gwasanaeth cymorth ymddygiad yn cefnogi cwricwlwm sy'n cynnwys sgiliau craidd, gan gynnwys mathemateg, Cymraeg a Saesneg, ynghyd â chynnig galwedigaethol sy'n cynnwys lleoliadau gwaith.
- Bydd y gwasanaeth cymorth ymddygiad yn cynnig cwricwla sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ehangach sydd o fudd i'r disgyblion ac sydd yn eu hysgogi.
- Bydd dulliau partneriaeth gydag ysgolion prif ffrwd yn cefnogi'r broses o ailintegreiddio'n llwyddiannus yn ogystal â'r posibilrwydd y gallai'r ddau fath o ysgol ddysgu oddi wrth ei gilydd.
- Bydd gweithio'n rhan o wasanaeth ymddygiad ehangach yn caniatáu i ddisgyblion gael dewisiadau addas sy'n gwella gallu pobl ifanc i ymddwyn yn annibynnol a gwneud dewisiadau cadarnhaol.
- Bydd y tîm cymorth ymddygiad ehangach yn canolbwyntio ar ddarparu ymyriadau llesiant emosiynol arbenigol i helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau hunanreoli sydd eu hangen arnynt i bontio'n llwyddiannus i ysgolion prif ffrwd, i waith neu i addysg bellach.

- Bydd y gwasanaeth ymddygiad ehangach yn gallu darparu ystod eang o staff arbenigol sydd wedi'u hyfforddi'n dda, yn ofalgar ac yn wybodus ac sydd yn meddu ar hyder a chymhwysedd i feithrin perthynas gadarnhaol ag eraill ac ysgogi newid.
- Bydd model integredig gyda'r ysgol brif ffrwd yn sicrhau bod athrawon yn arbenigo yn y pynciau y maent yn eu haddysgu.

Anfanteision

- Ar y dechrau bydd ysgolion yn nerfus na fydd darpariaeth ysgol ar gael yn y tymor hir ar gyfer achosion mwy cymhleth.
- Bydd oedi o ran cael yr holl wybodaeth berthnasol gan yr ysgolion sy'n atgyfeirio sy'n golygu y bydd rhai myfyrwyr yn dechrau heb y ddarpariaeth fwyaf effeithiol ar waith ar eu cyfer.

Yr effaith ar AAA

Bydd creu UCD i ddarparu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion disgyblion o bob oedran sydd ag ACEY wedi eu cydleoli ar un safle yn cynorthwyo o ran gwella ansawdd a safonau'r ddarpariaeth drwy alluogi aliniad o ran ansawdd a safon y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion ag ACEY ar draws yr Awdurdod. Bydd cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar y cyd i'r staff addysgu a'r ymarferwyr cymorth ymddygiad yn cryfhau darpariaeth arbenigol yr ALI o ran ACEY a bydd yn cefnogi arferion arloesol o ran ymddygiad, yn ehangu'r amrywiaeth o ymyriadau a dulliau sy'n ymwneud â pherthynas, ac yn gwella'r cyfleoedd ar gyfer datblygu a darparu cwricwlwm wedi'i deilwra'n bersonol dan arweiniad y disgyblion yn ogystal â chyfleoedd i ymgysylltu'n ystyrlon â theuluoedd.

Bydd y cynnig yn cryfhau elfen yr ALI o ran darparu allgymorth ymddygiad i ffurfio cysylltiadau cryf ac effeithiol ag ysgolion prif ffrwd a chynorthwyo disgyblion i ailgysylltu ag addysg brif ffrwd cyn gynted ag yr effeithiwyd ar newid. Bydd yn meithrin gallu ysgolion prif ffrwd i gynnig darpariaeth gynhwysol ar gyfer disgyblion ag anawsterau ymddygiad cymhleth a diwallu anghenion disgyblion ACEY yn eu cymuned leol.

Cynllun Strategol Y Gymraeg Mewn Addysg

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i ddysgwyr Sir Gaerfyrddin. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod y ddarpariaeth ddwyieithog yn ein Hysgolion a'n Hunedau arbennig yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio gyda'r lleoliadau hyn wrth ddatblygu darpariaeth ddwyieithog er mwyn sicrhau bod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth a chymorth dwyieithog yn eu dewis iaith. Mae hyn yn bodloni adran 63 o Ddeddf ADY 2018 ond mae hefyd yn diwallu disgwyliadau'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

Risgiau a Mesurau i'w Lliniaru

Y Risg		Y Mesur i Liniaru'r Risg
1.	Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r broses.	- Dilyn y canllawiau a bennwyd yn Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018
2.	Ymgynghoriad anfoddhaol â'r gymuned	- Datblygu strategaeth gyfathrebu ac ymgynghori'n rheolaidd i fynd i'r afael â phryderon

Staffio

Rhoddir sylw i'r goblygiadau o ran staffio yn unol â Gweithdrefnau a Pholisi Adleoli Staff y Cyngor Sir.

Mae gan yr Awdurdod Lleol bolisiau a gweithdrefnau staffio yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion a bydd y rhain yn cael eu gweithredu os bydd angen. Bydd yr Awdurdod yn cefnogi staff yr ysgol i gael cyflogaeth arall addas os bydd modd drwy brosesau adleoli, pe byddai hynny'n angenrheidiol.

Y Goblygiadau Ariannol

Ariennir Ysgol Rhyd-y-gors yn unol â Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 a Chynllun Ariannu Ysgolion y Cyngor Sir, gan dderbyn cyllideb a ddirprwyir yn flynyddol yn seiliedig ar gostau a dyraniadau cyllideb y blynyddoedd blaenorol gan ddiwygio'r gyllideb yn ôl unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth y cytunwyd arnynt ymlaen llaw gan yr ALI. Yn yr un modd â holl gyllidebau dirprwyedig ysgolion, mae'r ysgolion yn cario arian sydd dros ben / diffyg yng nghyllideb yr ysgol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Mae UCD yn adnodd sy'n cael ei reoli'n ganolog ac felly bydd angen cytuno ynghylch dyraniad cyllideb newydd o fewn yr adnoddau presennol neu drwy leihau dyraniad cyllideb ysgolion o ganlyniad i gau Ysgol Rhyd-y-gors.

Trefniadau Derbyn

Er bod yr Awdurdod Lleol wedi ymrwymo'n llwyr i gynhwysiant ac i addysgu cynifer o'i blant a'i bobl ifanc yn eu cymunedau lleol, mae rhai disgyblion sydd â heriau sylweddol a pharhaus yn ymwneud â'u Hanawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol ("ACEY") ac sydd angen darpariaeth ddydd arbenigol yn y tymor hir neu ddarpariaeth breswyl ACEY yn Ysgol Rhyd-y-gors. Ystyrir lle i ddisgyblion yn CA2, CA3 a CA4.

Ystyrir holl geisiadau ar gyfer derbyn disgyblion i Ysgol Rhyd-y-gors ar ran y Cyfarwyddwr ym Mhanel Cynhwysiant yr ALI. Mae'r Panel hwn yn argymhell lleoliadau yn Ysgol Rhyd-y-gors a dyma'r unig ffordd y mae plentyn neu berson ifanc yn gallu

mynd i Ysgol Rhyd-y-gors. Mae'r panel yn cwrdd bob pythefnos o dan gadeiryddiaeth Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r Panel Cynhwysiant hefyd yn cynnwys Swyddogion yr Is-Adran Cynhwysiant, Seicolegydd Addysg a Phlant, Cydlynnydd ADY a Phenaethiaid ysgolion arbennig ac ysgolion prif ffrwd. Mae presenoldeb yn ôl trefn rota. Dosberthir papurau cyfarfod y panel ymlaen llaw yn electronig ac mae'r holl dystiolaeth, gan gynnwys barn rhieni a phlant a phobl ifanc, yn cael ei hystyried yn ofalus cyn argymell lleoliad.

Wrth wneud penderfyniad, mae'r Panel Cynhwysiant yn ystyried a yw ACEY y plentyn neu'r person ifanc yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael lle yn Ysgol Rhyd-y-gors, gan ddangos tystiolaeth o hynny ar ffurf Datganiad AAA neu Gynllun Datblygu Unigol sy'n cynnwys Cofnod Ymgynghori Seicolegydd Addysg a Phlant sy'n amlinellu'r ACEY a chytundeb y rhieni.

Mae'r broses dderbyn hon i fynychu UC Dau yr un fath â'r broses lle mae angen cwblhau dogfennau paneli cynhwysiant gyda chaniatâd a chytundebau gan ysgolion, rhieni/gofalwyr a disgyblion ac mae'n rhaid ymgynghori â Seicolegydd Cyswllt Addysg yr ysgolion i argymell lleoliad UCD. Trafodir ynghylch ceisiadau'r panel lleoliadau a chytunir yn eu cylch yn y Panel Cynhwysiant ac mae'r rheolwyr a'r Cyfarwyddwr yn eu cymeradwyo cyn y cynigir lle yn ffurfiol.

Trefniadau Pontio

Os caiff y cynnig hwn ei roi ar waith, bydd y disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors cyn y gweithredir y cynnig yn cael eu derbyn yn awtomatig i'r UCD o Ionawr 2022.

Bydd y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors ar hyn o bryd yn cael eu cofrestru yn yr UCD. O 1 Ionawr 2022 bydd y disgyblion hynny â datganiadau yn ystod yr adolygiad blynyddol yn cael eu trosglwyddo i Gynlluniau Datblygu Unigol yn unol â Diwygio ADY ac amserlen drosglwyddo'r llywodraeth, nad ydyw wedi ei chyhoeddi eto.

Dewisiadau Eraill a Ystyriwyd

Wrth ddatblygu dewis a ffefrir, bu'r Awdurdod yn ystyried amrywiaeth o ddewisiadau.

Opsiw 1	Y sefyllfa bresennol	Nid yw'n mynd i'r afael â'r amrywiad o ran darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ACEY yng Nghaerfyrddin.
Opsiw 2	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd bresennol Sir Gaerfyrddin.	Dim digon o le yng Nghanolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin i wneud lle ar gyfer disgyblion Ysgol Rhyd-y-gors.
Opsiw 3	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd.	Bydd angen cymorth arbenigol ar ysgolion nad oes modd ei ddarparu mewn ysgolion prif ffrwd.
Opsiw 4 (Ffefrir)	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a darparu ar gyfer disgyblion mewn Uned Cyfeirio Disgyblion newydd ar safle Ysgol Rhyd-y-gors.	Mae'n creu cysondeb o ran ansawdd a safon y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Sir Gaerfyrddin ac mae'n sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ar ddisgyblion.
Opsiw 5	Cau Ysgol Rhyd-y-gors a pheidio â darparu darpariaeth amgen	Nid yw'n darparu ar gyfer anghenion disgyblion ag ACEY yng Nghaerfyrddin.

Asesiad o'r Effaith ar Gludiant

Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol y Cyngor.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Gweler Atodiad A o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a gynhaliwyd

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweler Atodiad B o'r ddogfen ymgynghori, lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a gynhaliwyd

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gweler Atodiad C o'r ddogfen ymgynghori hon, lle ceir manylion llawn am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd

Gwerthusiad o'r Trefniadau Presennol

Yn gyffredinol, mae'r safonau y mae disgyblion yn eu cyrraedd yn Rhyd-y-gors yn ddigonol ac mae angen eu gwella.

A1: Codi safonau a gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion

Mae nifer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson o ran datblygu eu sgiliau, ac mae datblygiad eu sgiliau corfforol yn gryfder. Mae'r gwaith o gynllunio ac addysgu sgiliau ar draws y cwricwlwm yn foddhaol, yn enwedig o ran llythrennedd a datblygu sgiliau datrys problemau. Nid oes fawr ddim tystiolaeth o'r effeithiau.

Mae llesiant ac agweddau tuag at ddysgu yn Rhyd-y-gors yn ddigonol ac mae angen eu gwella.

A2 Gwella ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu

Mae'r berthynas waith rhwng y staff a'r disgyblion yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn ymddwyn, yn dilyn arferion ac yn cyflwyno'u hunain yn briodol. Fodd bynnag, mae ymddygiad rhai o'r disgyblion hŷn yn destun pryder i'r plant iau. Nid yw lleiafrif o'r plant hŷn a rhai o'r plant iau bob amser yn ymgymryd yn dda â'u dysgu.

Mae'r profiadau addysgu a dysgu yn Rhyd-y-gors yn ddigonol ac mae angen eu gwella

A3 Gwella ansawdd yr addysgu ac effeithiolrwydd y gwaith asesu

O ganlyniad i berthnasoedd llawn ymddiriedaeth, mae disgyblion yn magu hyder ac yn ymateb i her. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r staff yn mabwysiadu strategaethau ymddygiad sy'n cefnogi ymgysylltu a gwneud cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth da o brofiadau dysgu. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth o ran sgiliau ar draws y cwricwlwm yn gynnar yn y broses. Mae'r ysgol yn dechrau gweithredu ond nid yw'r effaith ar yr ysgol gyfan yn amlwg eto. Mae gwybodaeth bwnc y rhan fwyaf o'r athrawon yn sicrhau bod y gwaith cynllunio'n diwallu anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddisbarthiadau, nid yw'r athrawon yn cynllunio'n ddigon da ac mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd.

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn Rhyd-y-gors yn ddigonol ac mae angen eu gwella.

Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn Rhyd-y-gors yn ddigonol ac mae angen eu gwella

A4 Cryfhau Cynllunio Gwella

Mae'r gwaith o fonitro gweithgareddau i ganfod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn briodol. Mae'r ysgol yn olrhain ac yn monitro ymddygiad disgyblion yn effeithlon. Fodd bynnag, nid yw effaith y gwaith dadansoddi wedi cael digon o effaith ar leiafrif o ddisgyblion.

Mae'r corff llywodraethu'n datblygu dealltwriaeth ehangach o'r anghenion cymorth sydd eu hangen i sicrhau effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad diweddaraf o'r cynlluniau gweithredu yn dystiolaeth nad oes digon o welliant wedi bod. Nid oes dal digon o ddealltwriaeth ynghylch sut i ddefnyddio cefnogaeth yn effeithiol ac mae cyflymdra'r newid yn parhau'n araf.

A5 Gwella'r amgylchedd dysgu

Mae'r ysgol yn rhannu ei gweledigaeth a'i gwerthoedd. Fodd bynnag, mae angen ystyried arbenigedd y staff a'r amgylchedd dysgu. Mae gwelliant wedi bod yn ddiweddar o ran diogelwch a mynd allan i'r awyr agored.

Effaith y cynnig

Bydd cau Ysgol Rhyd-y-gors a chreu UCD ar gyfer anghenion ystod amrywiol o ddisgyblion o bob oed a champau datblygu ar un safle yn sicrhau dull cyson o ran y strategaethau addysgu perthnasol ar draws yr holl gyfnodau allweddol, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen. Bydd y modd y mae disgyblion yn cael mynediad i'r awyr agored a'r gymuned ehangach yn ystyriaeth allweddol a bydd hyn yn cyd-fynd â gweledigaeth yr awdurdod lleol o ran gwella ansawdd a safonau'r ddarpariaeth a mwy o ddyheadau o ran cynnydd a dysgu pob disgybl.

Ategir hyn gan arferion ymddygiad arbenigol a rhaglenni ymgysylltu â theuluoedd yr awdurdod lleol, gan gynnwys mwy o gysylltiadau i gymorth a chydweithio ag ysgolion prif ffrwd. Bydd mwy o gyfleoedd i nodi a chynllunio rhaglenni unigryw yn gynnar sy'n canolbwyntio ar ailintegreiddio lle bo hynny'n bosibl. Bydd hyn yn datblygu gallu mewn ysgolion prif ffrwd, er mwyn i newid systemig arwain at welliant.

Wrth inni ddatblygu ein tîm arbenigol a chydweithio'n agos ag ysgolion prif ffrwd, byddwn yn datblygu ein modelau perthynas yn ehangach o ran y defnydd cyson o arferion adferol a'r ethos yn ein hysgolion a'n lleoliadau. Bydd gweithio'n agosach gydag ysgolion prif ffrwd, yr Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r gwasanaethau cymorth ymddygiad arbenigol hefyd yn caniatáu ar gyfer mwy o gyfle i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi dwys a chadarn i ysgolion hyfforddi ochr yn ochr â staff arbenigol er mwyn datblygu arferion seiliedig ar drawma ar gyfer y dysgwyr cymhleth hynny sy'n wynebu her ddyddiol wrth geisio rheoli eu hemosiynau.

Bydd cyfleoedd datblygiad proffesiynol cyson ar gyfer athrawon a staff cymorth yn cael eu cynllunio yn ôl disgwyliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a byddant yn cael eu monitro'n drefnus ar gyfer effaith gan nifer o swyddogion amlasiantaeth.

Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Llywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Â phwy yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partiön canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Athrawon a Staff Atodol)	Cyfarwyddwyr Addysg – yr holl Awdurdodau Cyfagos
Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarcheidwaid	Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig Rufeinig
Cynghorwyr Sir Lleol	Estyn
Cynghorwyr Cymuned	Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol
Aelodau o'r Senedd / Aelodau Rhanbarthol / Aelodau Seneddol (AS)	*Pob ysgol o fewn Sir Gâr
Gweinidogion Llywodraeth Cymru	Yr holl undebau perthnasol
Partneriaid AAA	Comisiynydd y Gymraeg
Is-adran Anghenion Addysgol Arbennig yr Awdurdod Lleol	Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol
ERW – Ein Rhanbarth ar Waith	Dechrau'n Deg
	Gofal Plant / Blynyddoedd Cynnar
Cymunedau am Waith +	Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymunedau am Waith	Y Gronfa Waddol
Cyfuno	Teuluoedd yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin

* Dogfen ymgynghori wedi'i hanfon at y Pennaeth a Chadeirydd Llywodraethwyr pob Ysgol Gynradd ac Uwchradd yn Sir Gaerfyrddin.

Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 11 Ionawr 2021 ac yn dod i ben ar 21 Chwefror 2021.

Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgynghoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol y manylir arno ar dudalen 21.

Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

[Arolwg Snap](#)

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol heb fod yn hwyrach na chanol dydd ar 21 Chwefror 2021:

Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB
Neu drwy anfon neges e-bost at: aaprma@sirgar.gov.uk

Sesiynau galw heibio

Oherwydd goblygiadau parhaus y pandemig Coronafeirws, cynhelir y sesiwn galw heibio ar ffurf rithwir drwy Microsoft Teams ar **27 Ionawr 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr**. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn addas i chi, gallwn gynnig dulliau cyfathrebu amgen fel e-bost neu alwad ffôn.

Os hoffech ddod i'r sesiwn galw heibio rithwir, cysylltwch â Miss Isabelle Mariani drwy'r cyfeiriad ebost uchod i fynegi eich diddordeb **20 Ionawr 2021**.

Ymgynghori â Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion yr ysgolion sy'n destun cynnig gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Adroddiad Ymgynghori

Bydd Adroddiad Ymgynghori'n cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen i gyhoeddi

hysbysiad statudol. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r materion hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn ynghylch y cynnig a manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ydynt am fwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os yw'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynnig. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, i rieni, i warcheidwaid ac i aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Cyfnod Gwrthwynebu Statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau. Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law, cyhoeddir adroddiad ynghylch y gwrthwynebiadau ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r gwrthwynebiadau hynny.

Penderfynu ar y Cynnig

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Rhoi gwybod am y penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Amserlen y Broses Statudol

Bydd y broses statudol a'r amserlen fel a ganlyn:

11 Ionawr 2021	Dosbarthu'r ddogfen ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.
21 Chwefror 2021	Y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y cynnig i'r Adran Addysg a Phlant.
27 Ebrill 2021	<p>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. NEU fel arall, daw'r cynnig i ben.</p> <p>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf 2 wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.</p> <p>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r mater yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff. Ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad caniateir cyfnod o 28 diwrnod pryd y gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol.</p> <p>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig.</p>
8 Mehefin 2021	Diwedd y cyfnod hysbysu ffurfiol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.
Gorffennaf 2021	<p>Y dyddiad olaf o ran rhoi gwybod i'r rhieni am y bwriad i roi'r cynnig ar waith.</p> <p>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.</p>

Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Lleolir Ysgol Rhyd-y-gors yn ward De Tref Caerfyrddin. Gellir gweld proffil y ward drwy glicio ar y ddolen ganlynol: [Ward De Tref Caerfyrddin](#).

Effaith Gymunedol

Os gweithredir y cynnig ni fydd newid i'r gymuned. Bydd safle Ysgol Rhyd-y-gors yn parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion addysgol a bydd yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol.

Cyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol / llyfrgell gymunedol

Mae'r ysgol drwy gyfrwng y tîm preswyl yn cynnig darpariaeth ar ôl ysgol ar gyfer disgyblion oedran cynradd ar sail anghenion. Mae hwn yn wasanaeth cofleidiol sy'n cefnogi'r disgybl a'i deulu drwy ddarparu gofal ar ôl ysgol a chymorth rhwng 3pm a 7pm.

Oherwydd bod elfen breswyl yr ysgol yn weithredol ar ddiwedd y diwrnod ysgol, nid yw'r ysgol yn cael ei chynnig i'r gymuned leol allu ei defnyddio y tu allan i oriau ysgol.

Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Sir Caerfyrddin yw darparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn, ac felly yn eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir.

Categori iaith Ysgol Rhyd-y-gors yw cyfrwng Saesneg/Dwyieithog.

Nododd arolygiad diweddaraf Estyn (Tachwedd 2019) fod 'Nifer o ddisgyblion yn datblygu sgiliau Cymraeg sylfaenol yn fedrus ar y cyfan mewn pynciau gwahanol. Er enghraifft, mewn mathemateg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod rhifau'n Gymraeg ac yn eu defnyddio i ateb yn gywir. Mae'r disgyblion iaith gyntaf yn siarad yn hyderus ynghylch amrywiaeth o bynciau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion hyn bob amser yn ymestyn eu dysgu ac yn cyflawni lefelau priodol o achredu oherwydd bod y gwersi'n rhoi sylw i ddeunyddiau sy'n addas ar gyfer Cymraeg ail-iaith.'

Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cyngor Sir Caerfyrddin Asesu Effaith

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) yn dwyn ynghyd y deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol ac yn rhoi un Ddeddf sengl yn eu lle. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysonderau ac mae'n ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n cymryd lle'r dyletswyddau unigol yn ymwneud â chydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd. Daeth hon i rym ar 5 Ebrill 2011.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan annatod o ddylunio polisiau a darparu gwasanaethau a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Mae'r dyletswyddau yn rhwymedigaethau cyfreithiol. Os na chyflawnir y dyletswyddau, gall arwain at her gyfreithiol yn erbyn awdurdodau.

O dan y ddeddfwriaeth cydraddoldeb, mae dyletswyddau cyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw priodol' i'r angen am ddileu gwahaniaethu ac i hybu cydraddoldeb o ran hil, anabledd a rhywedd, gan gynnwys ailbennu rhywedd, yn ogystal â hybu cysylltiadau hiliol da. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno dyletswydd newydd sector cyhoeddus sy'n ymestyn ei chwmpas i oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, a chrefydd neu gred. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y ddyletswydd hon i roi 'sylw priodol' yn cael ei dangos yn y broses gwneud penderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n

ddarostyngedig i'r dyletswyddau cydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Hawliau Dynol ac felly mae'n ddoeth ystyried fel rhan o'r un broses yr effaith bosibl y gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol.

Dull Sir Gaerfyrddin o ran yr Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried yr effaith bosibl y bydd ei bolisiâu a'i arferion arfaethedig yn ei chael ar gydraddoldeb, ac er mwyn dangos tystiolaeth ein bod wedi gwneud hynny, bydd angen i bob cynnig gael ei ategu gan yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb atodedig. Os yw'r asesiad hwn yn clustnodi effaith sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen rhagor o fanylion.

Cyhoeddi adroddiad ynghylch asesiadau


Os yw'n amlwg o'r asesiad fod yr effaith debygol ar allu'r Awdurdod i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn un sylweddol, bydd rhaid iddo gyhoeddi adroddiad.

Asesiadau Cychwynnol a Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb (atodiad 1) yn ddull syml a chyflym o asesu effaith polisi, swyddogaeth, gweithdrefn, penderfyniad, gan gynnwys toriadau ariannol, ar un neu ragor o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae'n rhaid i'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y polisiâu, y swyddogaethau, y gweithdrefnau a'r penderfyniadau ariannol newydd neu ddiwygiedig perthnasol, gynnal o leiaf Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb, a chwblhau Asesiad Manwl o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n berthnasol (atodiad 2). Mae'n rhaid atodi'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bapur cefndir gyda'r adroddiadau i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r Pwyllgor Craffu.

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb – Y broses sydd i'w dilyn lle nodwyd goblygiadau o ran Adnoddau Dynol





Clustnodi newidiadau/rhagor o waith i'w gwblhau neu gyfeirio'r mater at y

Templed ar gyfer Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb Atodiad 1

Adran: Addysg a Phlant	Cwblhawyd gan (arweinydd): Sara Griffiths	Dyddiad yr asesiad cychwynnol: Hydref 2020 Dyddiadau Adolygu: Gorffennaf 2021
Y maes a asesir: (h.y. enw'r polisi, y swyddogaeth, y weithdrefn, yr arfer neu benderfyniad ariannol)	Cynnig i ad-drefnu ac ailfodelu'r Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.	
A yw'r swyddogaeth/polisi, y weithdrefn, yr arfer neu'r penderfyniad dan sylw yn bod eisoes neu a yw'n un newydd?	Cynnig ynghylch Ad-drefnu Ysgolion – Rhaglen Moderneiddio Addysg	
Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth lunio'r asesiad a'r polisi? (rhestrwch yn unig)		
<ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif • Y Rhaglen Moderneiddio Addysg • Côt Trefniadaeth Ysgolion 2018 • Data CYBLD 2020 • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 		

<p>1. Disgrifiwch nodau, amcanion neu ddiben y swyddogaeth/polisi, yr arfer, y weithdrefn neu'r penderfyniad dan sylw a phwy fydd yn cael budd o hyn.</p>		<p>Cau Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors. Ar wahân i hynny, sefydlu UCD a Chartref Plant/Canolfan Seibiant ar safle'r hen Ysgol Rhyd-y-gors ar gyfer disgyblion ag ACEY yng Nghaerfyrddin. Bydd y cynnig yn cynorthwyo o ran gwella ansawdd a safonau'r ddarpariaeth drwy alluogi aluniad o ran ansawdd a safon y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion ag ACEY ar draws yr Awdurdod.</p>			
<p>Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod y Cyngor yn rhoi "sylw priodol" i'r angen i wneud y canlynol:- (1) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon; (2) hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a (3) meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau (gweler y canllawiau)</p>		<p>2. Faint o effaith fydd ar bob grŵp/nodwedd warchoddedig o ran tri nod y ddyletswydd? Nodwch a fydd yn cael effaith fawr, effaith ganolig, effaith fach neu ddim effaith o gwbl.</p>	<p>3. Nodwch y risg neu'r effaith gadarnhaol bosibl ar gyfer pob grŵp/nodwedd warchoddedig?</p>		<p>4. Os oes effaith negyddol anghymesur, pa ffactorau lliniarol ydych wedi'u hystyried?</p>
<p>Nodweddion gwarchoddedig</p>	<p>Oedran</p>	Dim	Amherthnasol		
	<p>Anabledd</p>	Effaith fach	Amherthnasol	Bydd y cynnig hwn yn sicrhau cysondeb a thegwch o ran y math o ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion ag ACEY ar draws y Sir.	
	<p>Ailbennu rhywedd</p>	Dim	Niwtral		
	<p>Hil</p>	Dim	Niwtral		

	Crefydd/Cred	Dim	Niwtral		
	Beichiogrwydd mamolaeth	Dim	Niwtral		
	Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim	Niwtral		
	Rhyw	Dim	Niwtral		
	Yr Iaith Gymraeg	Dim	Niwtral		
	Unrhyw faes arall	Dim	Niwtral		

<p>5. A fu unrhyw ymgynghori/ymgysylltu o ran y nodweddion gwarchoddedig priodol?</p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> DO NADDO <input type="checkbox"/></p> <p>Bydd ymgynghori anffurfiol a ffurfiol fel y nodwyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol, ymgynghorir â'r prif randdeiliaid a restrir yn y ddogfen ymgynghori hon.</p>
<p>6. Pa gam/gamau a gymerwch i leihau unrhyw effeithiau negyddol anghymesur, os bydd rhai? Sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cael gwybodaeth lawn ar bob cam o'r ymgynghori.</p>	
<p>7. Caffael Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran caffael i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? DDIM YN BERTHNASOL Gofynnir i chi gynnwys canfyddiadau'r asesiad hwn yn eich cynllun caffael. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor.</p>	
<p>8. Adnoddau dynol Ar ôl crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad hwn, a oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau dynol i'r gweithgaredd, i'r cynnig neu i'r gwasanaeth? Cynhelir trafodaethau ynghylch y cynnig gydag Adnoddau Dynol.</p>	
<p>9. Ar sail y wybodaeth yn adrannau 2 a 6, a ddylai Asesiad Manwl o Effaith gael ei gynnal o ran y swyddogaeth/y polisi/y weithdrefn/yr arfer neu'r penderfyniad? (argymhellir bod hyn yn digwydd os oes mwy nag un effaith fawr wedi'i nodi yn adran 2)</p>	<p>IAWN <input type="checkbox"/> <input checked="" type="checkbox"/> NA</p>

Cymeradwywyd gan: Pennaeth y Gwasanaeth	Simon Davies	Dyddiad: Hydref 2020
---	--------------	-----------------------------

